**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 2 Tachwedd 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | P Downing |
| M H Jones | W Evans | M B Lewis |
| R D Lewis | P B Smith | D W W Thomas |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Andrew Ferguson | Arweinydd Tîm Ardal |
| Liam Jones | Arweinydd Tîm Ardal |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L J Tyler-Lloyd

---

## 40 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Y Cynghorydd P M Black – Cofnod Rhif 42 - Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Eitem 3 (2021/2253/FUL) - Personol a Rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth.

Y Cynghorwyr C Anderson, P Downing, W Evans, M H Jones, M B Lewis, R D Lewis, P Lloyd, P B Smith, D W Thomas ac M White – Cofnod Rhif 42 - Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Eitem 3 (2021/2253/FUL) - Personol.

## 41 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2021 fel cofnod cywir.

**42 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod)

(#)Sylwer;
Ers i'r adroddiadau gael eu cymeradwyo ar gyfer y Pwyllgor, mabwysiadwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol yn y Pwyllgor Cynllunio Arbennig a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2021, gan ddisodli'r CCA a ddyfynnwyd yn yr adroddiadau:

- Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiadau Preswyl (2021)
- Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiadau Deiliaid Tai (2021)
- Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd (2021)

Bydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r CCA o ganlyniad i hyn yn cael eu nodi isod a lle na chânt eu nodi, ystyrir bod prif bwyslais y CCA sydd newydd ei fabwysiadu yn cyd-fynd â fersiynau blaenorol y dogfennau perthnasol (er y gallai cyfeiriadau fod wedi newid).

Dim ond mewn perthynas ag Eitemau 1 a 3 yr ystyrir bod hyn yn berthnasol.

1) **Cymeradwyo'r** ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod:

**#(Eitem 1) – Cais Cynllunio 2020/2559/RES - Cynnig i roi'r gorau i safleoedd tirlenwi a gweithrediadau eraill a alluogir gan ddatblygiad preswyl ag oddeutu 300 o anheddau, man agored cyhoeddus, priffyrdd a gwaith ategol cysylltiedig (Manylion ymddangosiad, tirlunio, cynllun a graddfa'n unol â chaniatâd cynllunio amlinellol 2014/0977 a roddwyd ar apêl 11 Ionawr 2018) ar gyfer camau 3 (73 o anheddau) a 4 (36 o anheddau), man agored ac isadeiledd ategol (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig) yn Chwarel Cwmrhydyceirw Co Ltd Great Western Terrace, Cwmrhydyceirw, Abertawe.**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
•Mae dau achos (lleiniau 194 a 195) lle byddai isafswm pellter gwahanu o'r cefn i'r ochr o 12m yn cael ei gyflawni fel sy'n ofynnol gan CCA y Canllaw Dylunio blaenorol, tra bod CCA Canllawiau Creu Lleoedd sydd newydd ei fabwysiadu'n gofyn am isafswm pellter gwahanu o 15m o'r cefn i'r ochr mewn sefyllfaoedd o'r fath.
•Mae isafswm pellter gwahanu o 10.5m wedi'i bennu o fewn CCA y Canllawiau Creu Lleoedd sydd newydd ei fabwysiadu lle gall ffenestri llawr uchaf edrych dros erddi cyfagos a 13.75m yn achos eiddo trillawr. Roedd angen 10m ar CCA y Canllaw Dylunio blaenorol mewn sefyllfaoedd o'r fath. Mae sawl achos o fewn y datblygiad

arfaethedig lle cyflawnir safonau gwahanu blaenorol y CCA, ond nid y safonau presennol.

**#(Eitem 2) – Cais Cynllunio 2021/2116/FUL - Delwriaeth gwerthiant ceir a gwaith cysylltiedig ar dir i'r gorllewin o Heron Drive, Bro Tawe, Abertawe.**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

**#(Eitem 3) – Cais Cynllunio 2021/2253/FUL - Gosod to ar ongl dros ffenestr grom flaen yn 115 Cecil Street, Trefansel, Abertawe.**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Dim newidiadau sylweddol o ganlyniad i'r CCA newydd.

**#(Eitem 4) – Cais Cynllunio 2021/0867/FUL - Adeiladu llety myfyrwyr pwrpasol (fflatiau stiwdio) a gwaith cysylltiedig sy'n cynnwys adeilad 12 / 10 llawr gyda chyfleusterau cymunedol ategol, cyfleusterau storio beiciau / biniau, ac iard allan wedi'i dirlunio yn The Strand, Abertawe**.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd Gareth Hooper (asiant) y Pwyllgor.

Cymeradwywyd y cais yn amodol ar gytundeb Adran 106.

**#(Eitem 5) – Cais Cynllunio 2021/2474/S73 - Adeiladu llety myfyrwyr pwrpasol yn amrywio o 4 i 6 llawr o uchder, yn ogystal â dwplecs, sy'n cynnwys 287 o ystafelloedd gwely â chyfleusterau/gwasanaethau cymunedol ategol, 3 uned fasnachol (Dosbarthiadau A1/A3), maes parcio oddi tano â lle i barcio 43 cerbyd, ardal wasanaethu, gwaith peirianneg a thirlunio cysylltiedig - Amrywiad ar amod 1 Caniatâd Cynllunio 2016/1333 a roddwyd 21/04/2017 i ymestyn y cyfnod amser i ddechrau'r datblygiad o 5 mlynedd arall yn Safle J , Trawler Road, Ardal Forol, Abertawe.**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Derbyniwyd un llythyr o wrthwynebiad.

Cymeradwywyd y cais yn amodol ar gytundeb Adran 106.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.21 pm

**Cadeirydd**